



Comisiwn y Gyfraith
Diwygio'r gyfraith

Cyfraith Cynllunio yng Nghymru
Papur Ymgynghori Crynodeb

Cynnwys

	Tudalen
CYFLWYNIAD	
Yr ymarfer ymgynghori hwn	1
Eich ymateb	2
RHAN UN. EGWYDDORION CYFFREDINOL	
1. Cyfraith Cynllunio yng Nghymru	3
2. Tuag at gôd cynllunio newydd	3
3. Cwmpas yr ymarfer codeiddio	4
4. Diwygiadau technegol i'r ddeddfwriaeth	5
RHAN 2. PYNCIAU PENODOL	
5. Darpariaethau rhagarweiniol	7
6. Creu'r cynllun datblygu	8
7. Angen am gais cynllunio	9
8. Ceisiadau i'r awdurdod cynllunio	10
9. Ceisiadau i Weinidogion Cymru	12
10. Darparu seilwaith a gwelliannau eraill	12
11. Apeliadau a darpariaethau ategol eraill	13
12. Datblygiad anawdurdodedig	13
13. Gwaith sy'n cael effaith ar adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth	14
14. Hysbysebu yn yr awyr agored	16
15. Gwaith i goed wedi'u gwarchod	17
16. Gwella, adfywio ac adnewyddu	18
17. Heriau yn yr Uchel Lys	19
18. Darpariaethau amrywiol ac atodol	20

Byrfoddau

ASC	Ardoll Seilwaith Cymunedol
DC(C)	Deddf Cynllunio (Cymru)
DCGTh	Deddf Cynllunio Gwlad a Thref
DPhG	Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol
Deddf Adeiladau Rhestredig	Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth)
GDCG	Deddf Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir)

Cyflwyniad

YR YMARFER YMGYNGHORI HWN

- 0.1 Estynnodd Llywodraeth Cymru wahoddiad i Gomisiwn y Gyfraith adolygu'r posibilrwydd o symleiddio ac atgyfnerthu cyfraith cynllunio fel y mae'n berthnasol yng Nghymru, ac i wneud cynigion ar gyfer diwygiadau technegol. Daw hyn yn sgil y dull gweithredu a argymhellwyd yn ein hadroddiad ar ffurf a hygyrchedd cyfraith yng Nghymru,¹ ac mae'n rhan allweddol o brosiect codeiddio arbrofol y Cynulliad.
- 0.2 Bydd yr ymarfer hwn yn cyfrannu at ymddangosiad Bil Cynllunio a fydd yn disodli mwy na 25 o Ddeddfau Senedd Prydain a Deddfau'r Cynulliad yn gyfangwbl neu yn rannol.² Yn ei dro, daw hynny i ffurfio prif elfen Côd Cynllunio newydd, a fydd hefyd yn cynnwys deddfwriaeth eilaidd gysylltiedig (rheoliadau) a chanllawiau'r Llywodraeth.
- 0.3 Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r Papur Ymgynghori sylweddol yr ydym wedi'i gyflwyno, gan ddatgan ein cynigion ar gyfer diwygio, ar ddechrau Tachwedd 2017.
- 0.4 **Nodir bod y Crynodeb hwn, ynghyd â'r Papur Ymgynghori llawn, penodau unigol a rhestr llawn o'r cwestiynau ymgynghori, ar gael ar lein ar www.lawcom.gov.uk/planning-law-in-wales neu ar www.lawcom.gov.uk/cyfraith-cynllunio-yng-nghymru.**
- 0.5 Mae Rhan Un o'r Papur yn ymwneud ag Egwyddorion Cyffredinol. Mae yn agor gydag amlinelliad byr o'r ffyrdd y mae cyfraith cynllunio wedi cyrraedd y sefyllfa anfoddfaol presennol, a rhai o'r problemau sydd wedi codi fel canlyniad. Mae hefyd yn disgrifio datblygiadu y prosiect hyd yn hyn ac yn archwilio'r ffordd y gellir wella. Fe gyflwynon ni Bapur Cwmpasu ym Mehefin 2016, gan fynegi ein barn gychwynnol; rydym yn ddiolchgar i bawb a wnaeth ymateb. Yn sgil y farnau a fynegwyd ac ein gwaith pellach, mae Rhan Un o'r Papur Ymgynghori yn datgan ein casgliadau o ran cwmpas yr ymarfer, ac ein dull cyffredinol o weithredu ddiwygiadau technegol i'r gyfraith.
- 0.6 Yn dilyn y casgliadau cyffredinol yn sgil yr uchod, mae Rhan Dau yn ymdrin â phob un o'r pynciau pwysig yn y maes hwn, yn eu tro. Amlinellir nifer o gynigion amodol er mwyn gwneud newidiadau technegol i sylwedd y gyfraith, a'r ffyrdd gellir orau gyflwyno'r gyfraith er lles y defnyddwyr. Mae Rhan Dau hefyd yn gwneud nifer o awgrymiadau o ran hen ddarpariaethau na ddefnyddir bellach. Gofynnwn nifer o gwestiynau mewn perthynas â materion lle mae barnau gwahanol yn glun a'r hyn sydd fwyaf priodol yn debygol o fodoli.
- 0.7 Rhestrwn ein cwestiynau ymgynghori ar ddiwedd y Crynodeb yma ac ar ddiwedd Rhan Dau o'r Papur Ymgynghori llawn.
- 0.8 Rydym yn ddiolchgar am y cymorth sylweddol a roddwyd i ni gan nifer o swyddogion Llywodraeth Cymru trwy gydol gwaith paratoi'r Papur Ymgynghori hwn, yn ogystal â

¹ Adroddiad ar Ffurf a Hygyrchedd y Gyfraith sy'n Berthnasol i Gymru, Com y Gyf Rhif 366, Mehefin 2016.

² Rhestrwyd yn Nhabl 1.1 ar dudalennau 14-15 o'r Papur Ymgynghori.

chan lawer eraill yr ydym wedi rhannu syniadau â nhw. Pwysleisiwn bod y Papur yn cynrychioli barn amodol Comisiwn y Gyfraith, fodd bynnag, ac nid o reidrwydd y rhai a rhoddodd cynorthwyaeth i ni er mwyn ei gynhyrchu.

EICH YMATEB

- 0.9 **Gwahoddwn ymatebion gan bawb sydd yn darllen y Crynodeb hwn neu'r Papur Ymgynghori llawn, yn glun a'r bwriadau a'r cwestiynau ymgynghori, yn gynfangwbl neu yn rannol. Y dyddiad cau am ymatebion yw dydd lau, 1 o Fawrth 2018. Byddai'n ddelfrydol pe gallent gael eu hanfon drwy e-bost i:**

planning_wales@lawcommission.gov.uk

- 0.10 **Dylir anfon ymatebion yn y Gymraeg i:**

cynllunio_cymru@lawcommission.gov.uk.

- 0.11 **Croesawn sylwadau ar yr holl gynigion a'r cwestiynau neu ar y rhai mewn penodau penodol, neu ar un neu ddau yn unig. Byddem yn hynod o ddiolchgar am unrhyw ymateb neu sylwad pellach y dymunwch eu gwneud.**

- 0.12 Rhown groeso penodol i sylwadau o ran goblygiadau ariannol neu goblygiadau adnoddol eraill - ffafriol neu anffafriol - ynghylch unrhyw un o'n cynigion. A fyddent yn arbed amser ac arian i chi, neu gwneud eich bywyd yn haws mewn ryw ffordd, neu a gaent yr effaith groes? Byddai sylwadau y neid helpu i greu asesiad effaith yn ein adroddiad terfynol.

- 0.13 Estynnwn wahoddiad hefyd i ymatebwyr i godi unrhyw bwynt penodol yn glun a'r cod statudol – yn debyg i'r rhai sydd wedi ei gynnwys yn y Papur Ymgynghori – y teimlant y dylai fod wedi'i gynnwys.

- 0.14 Byddem hefyd yn barod i gwrdd ag unrhyw randdeiliaid – naill ai grwpiau neu unigolion – a fyddai'n dymuno trafod cynnwys y Papur Ymgynghori yn fanylach – er nad ydyn yn gallu trafod achosion penodol neu i gynnig cyngor. A fyddech cystal ag anfon unrhyw gais am gyfarfod i'r cyfeiriad e-bost uchod.

- 0.15 Yn wyneb yr ymatebion a dderbyniwn i'r Papur Ymgynghori hwn, byddwn yn cyflwyno Adroddiad Terfynol yn Hâf 2018. Bydd hwn yn llywio gwaith cynhyrchu'r Bil Cynllunio newydd, a ffurfio prif elfen Côd Cynllunio newydd i Gymru.

Rhan Un. Egwyddorion Cyffredinol

PENNOD 1: CYFRAITH CYNLLUNIO YNG NGHYMRU

- 1.1 Cafodd y system gynllunio ei chreu ar ôl diwedd yr Ail Ryfel Byd. Mae'r ddeddfwriaeth sy'n ei rheoli wedi tyfu'n gyflymach a chyflymach ers hynny, fel bod pedair prif Ddeddf cynllunio 1990 - yn cynnwys Deddf Cynllunio Gwlad a Thref ("DCGTh") a'r Ddeddf Adeiladau Rhestredig - wedi'u diwygio neu eu hatodi gan Ddeddf Cynllunio a Digolledu 1991, Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol ("DCPhG") 2004, Deddf Cynllunio 2008, Deddf Cynllunio (Cymru) ("DC(C)") 2015, Deddf Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 a rhannau o oddeutu dwsin o Ddeddfau eraill. Mae nifer debyg o Ddeddfau cyn 1990 hefyd yn ymwneud yn gyfan gwbl neu'n rhannol â chynllunio.
- 1.2 Canlyniad y broses hon o newid graddol yw bod bellach o leiaf 30 darn o ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n plethu trwy'i gilydd yn ymwneud â defnydd tir a datblygu. Nid yw'n waith didrafferth o gwbl i ymarferwyr profiadol ganfod y ffordd o amgylch hyn, ac mae bron yn amhosib i rai heb brofiad. Mae problemau penodol yng Nghymru, gan ei bod yn dod yn fwyfwy anodd pennu y ddeddfwriaeth sydd yn berthnasol yng Nghymru a Lloegr, pa un sy'n berthnasol yn Lloegr yn unig a pha un yng Nghymru'n unig. Ac mewn rhai achosion, mae adran o Ddeddf penodol yn berthnasol mewn ffordd gwahanol yng Nghymru i'r ffordd y mae'n berthnasol yn Lloegr - enghraifft nodedig o hyn yw adran 1 o'r DCGTh 1990.³ Mae'n anorfod y bydd y problemau hyn yn cynyddu yn y blynyddoedd i ddod.
- 1.3 Ystyriwn fod y system gynllunio, yn egwyddorol, yn gymharol syml. Ond ystyriwn hefyd ei bod yn ymddangos yn hynod gymhleth. Cytunir yn gyffredinol yr ymatebwyr i'n papur Cwmpasu.
- 1.4 Yn y Papur Ymgynghori ystyriwn sut mae modd gwneud y ddeddfwriaeth yn syml unwaith eto, yng Nghymru o leiaf. Rydym yn nodi ein cynigion o ran cynnwys y Bil Cynllunio a ddeuai'n brif ddarn o ddeddfwriaeth sylfaenol o fewn Côt Cynllunio newydd.⁴ Byddai'r Bil yn cynnwys llawer o'r gyfraith sydd eisoes yn bodoli ond mewn ffurf gliriach, ac mewn un darn o ddeddfwriaeth yn hytrach nac wedi'i wasgaru ar draws sawl Deddf; a byddai'n egluro amryfal fanylion. Ond byddai'n hepgor nifer o ddarpariaethau nad ydynt o fudd parhaus.

PENNOD 2: TUAG AT GÔD CYNLLUNIO NEWYDD

- 2.1 Yng Ngorffennaf 2016 cyhoeddodd ni Bapur Cwmpasu, yn datgan ein barn amodol o ran natur a chwmpas ymarfer codeiddio a symleiddio posib, a rhoi cyfle i randdeiliaid wneud sylw. Sicrhawyd bod copïau ar gael i ystod eang o randdeiliaid allweddol, yn cynnwys awdurdodau cynllunio a chyrrff cyhoeddus eraill, sefydliadau proffesiynol, grwpiau treftadaeth a thrydydd sector eraill, ac ar gyfer ymarferwyr unigol.

³ Nodir yn Nhabl 1-2 (ar dudaled 17 o'r Papur Ymgynghori), fel sydd yn berthnasol i Loegr ac fel sydd yn berthnasol yng Nghymru.

⁴ Fe fydd y Côt yn cynnwys cyfraith eilaidd a chyfarwyddiadau perthnasol.

Cyfarfyddon â swyddogion Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Swyddogion Cynllunio (Cymru), yr Arolygiaeth Gynllunio, a Cadw.

- 2.2 Fe wnaeth dros 60 o sefydliadau ac unigolion⁵ nail ai cyfarfod â ni neu gyflwyno ymatebion ysgrifenedig i'r Papur Cwmpasu. Amlygodd llawer broblemau gyda'r ddeddfwriaeth presennol; cytunodd y mwyafrif llethol (94%) bod achos cryf am Gôd Cynllunio newydd i Gymru, a phwyntio at y manteision a ddeuai o'r ymarfer. O ganlyniad i'r trafodaethau a'r ymatebion hynny, rydym wedi dod i farn derfynol o ran cwmpas yr ymarfer presennol, a ddatgenir ym Mhennod Tri o'r Papur Cwmpasu.
- 2.3 Ym Mhennod Pedwar datganwn ein casgliadau cyffredinol o ran diwygiadau technegol i'r ddeddfwriaeth. Ac yn yr ail ran o'r Papur Ymgynghori amlinellwn nifer o gynigion amodol o ran diwygiadau penodol, fesul pwnc, yr ydym yn ceisio cael barn ymgynghorwyr arnynt.

PENNOD 3: CWMPAS YR YMARFER CODEIDDIO

- 3.1 Wrth benderfynu beth ddylid ei gynnwys yn yr ymarfer codeiddio, fe ystyrion ni y byddai'n well i ddechrau ar raglen codeiddio resymol uchelgeisiol, tra hefyd rhoi sylw i'r adnoddau ar gael i Lywodraeth Cymru er mwyn gweithredu arnynt.
- 3.2 Yn ein Papur Cwmpasu, fe awgrymon ni mai'r darpariaethau cynllunio craidd ddylai fod wrth galon yr ymarfer - hynny yw, y rhai hynny sy'n ymwneud â:
- phwrpas y system gynllunio a sut i'w gweinyddu;
 - ffurf y cynllun datblygu (yn cynnwys y pwnc cysylltiedig malltod cynllunio);
 - natur datblygu a'r angen am geisiadau cynllunio;
 - y broses o geisio caniatâd - naill ai gan yr awdurdod cynllunio neu gan Weinidogion Cymru: camau unioni (apeliadau, hysbysiadau prynu ac ati); a
 - datblygiadau anawdurdodedig.
- 3.3 Rydym yn dal i ystyried y dylid cynnwys y darpariaethau uchod. Cânt eu hystyried yn fanylach ym Mhenodau 5 i 9, 11 a 12 o'r Papur Ymgynghori.
- 3.4 Pwnc pellach sydd yn ymwneud â rheolau cynllunio yw darpariaethau seilwaith prif lif - naill ai trwy rwymedigaethau cynllunio neu drwy'r ardoll seilwaith cymunedol (ASC). Ni chyffyrddwyd â hwn yn y Papur Cwmpasu oherwydd bod yr ASC hyd yn hyn wedi bod tu fas i gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Nid fel hyn y bydd hi unwaith y daw Deddf Cymru 2017 i rym o fewn y blwyddyn nesaf, ac felly ystyriwn y dylai cyllid seilwaith cael ei gynnwys yn y côd. Ymdriniwn â hwn ym Mhennod 10.
- 3.5 Yn y Papur Cwmpasu fe gyfeirion ni hefyd at y cyfundrefnau cydsynio eraill sy'n bodoli ochr yn ochr â rheolau cynllunio prif lif - yn enwedig y rhai sydd yn ymwneud ag adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth, hysbysebion awyr agored a gwaith i

⁵ Rhestrwyd yn Atodiad A i'r Papur Ymgynghori.

goed gwarchoddedig. Ystyriwn y dylai'r Côd newydd gynnwys y cysyniadau yma (er nid rheolau gwaith i henebion rhestredig); fe drafodir rhain ym Mhenodau 13 i 15.

- 3.6 Ystyriwn y byddai'n briodol i'r ymarfer codeiddio presennol hefyd gynnwys y darpariaethau sydd yn DCGTh 1990 ar hyn o bryd, sydd yn delio â mentrau gan awdurdodau cyhoeddus i wella tir blêr a chael gwared â graffiti neu phosteri a osodir heb ganiatâd. Byddai hefyd yn ddoeth, cyn belled â phosib, i ddiddymu gweithdrefnau (megis parthau mentrau, parthau cynllunio syml, corfforaethau datblygu trefol) na ddefnyddir ers sawl blwyddyn, neu o gwbl. Dyma'r materion a drafodir ym Mhennod 16.
- 3.7 Yr hyn fydd yn gysylltiedig â'r darpariaethau craidd hynny - yn bennaf yn Rhan 3 DCGTh 1990 a Rhan 6 Deddf CPHG 2004 – yw y rhai yn Rhannau 9 i 15 DCGTh 1990 sydd yn ymwneud ag ymgwymerwyr statudol, y Goron, mwynau, heriau yn y llys, darpariaethau ariannol a dehongli. Nid yw'r darpariaethau yma yn cael ei defnyddio yn ymarferol, ond maent yn hanfodol i weithredu system cynllunio, ac felly rhaid hefyd eu cynnwys. Cânt eu hystyried yn gyffredinol ym Mhennod 17.
- 3.8 O'r herwydd, ystyriwn y dylai Bill Cynllunio newydd gynnwys yr amryfal faterion y cyfeirir atynt uchod, a nodir yn Nhabl 3-1.⁶
- 3.9 Ochr yn ochr â Bil o'r fath, rydym yn ymwybodol mai bwriad Llywodraeth Cymru yw cyflwyno Bil Amgylchedd Hanesyddol yn y man, a fydd yn ymgorffori'r holl ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n ymwneud ag adeiladau rhestredig, ardaloedd cadwraeth, henebion rhestredig ac asedau hanesyddol eraill, ar wahân i'r cyfundrefnau cydsynio y cyfeirir atynt uchod.
- 3.10 Ystyriwn na fyddai'n briodol, yn y cyfnod hwn, i gynnwys deddfwriaeth sy'n ymwneud Cefn Gwlad a hawliau tramwy, sylweddau peryglus, prynu gorfodol a digolledu, Rheoliadau Adeiladu ac amrywiaeth o godau deddfwriaethol, hunangynhwysol eraill yn y Côd Cynllunio.⁷

PENNOD 4: DIWYGIADAU TECHNEGOL I'R DDEDDFWRIAETH

- 4.1 Yn y Papur Cwmpasu, fe wnaethom ddynodi pedwar categori o welliannau posib i'r ddeddfwriaeth: egluro geiriau ac ymadroddion; gwelliannau i fireinio gweithdrefn neu ddiwygio anghysonderau; diwygio lle nad yw darpariaethau'n adlewyrchu arfer sefydledig; a rhesymoli darpariaethau dyblygol, rhai hen neu rai nad ydynt wedi'u dechrau, neu gael gwared â nhw. Cafodd y categorïau hyn gefnogaeth cyffredinol gan ymatebwyr.

⁶ Ar dudlane 64 o'r Papur Ymgynghori.

⁷ Yn cynnwys y rhai hynny sydd yn berthnasol i seilwaith trafnidiaeth, cartrefi symudol, gwrychoedd uchel, a drylliadau gwarchoddedig.

- 4.2 Fe ystyrion ni'r cydbwysedd rhwng deddfwriaeth sylfaenol ac eilaidd. Yn gyffredinol, ystyriodd y rhan fwyaf o ymatebwyr i'r Papur Cwmpasu fod y cydbwysedd cyfredol yn gywir ar y cyfan. Cytunwn, gydag un neu ddau o addasiadau manwl.
- 4.3 Fe edrychon ni ar gynnwys rhai egwyddorion sydd i'w gweld ar hyn o bryd mewn cyfraith achos, lle maent yn digon cadarn a manwl i ffurfio darpariaeth mewn statud. Yn benodol, rydym wedi ystyried os y byddai yn bosib i egluro diffiniadau y termau a ddefnyddir yn y ddeddfwriaeth, megis "cwrtil" ac "ystyriaethau o bwys". Ychydig o gefnogaeth a gafodd hwn mewn egwyddor, ond awgrymodd rhai ymatebwyr y gallai brofi i fod yn anodd yn ymarferol. Yn gyffredinol, rydym wedi gweld bod cyfiawnhad dros y cyfryw amheuon a bod llai o gyfle i "godeiddio" o'r fath nag yr oeddem yn ei ddisgwyl yn wreiddiol.
- 4.4 Fe ystyrion ni hefyd godeiddio cysyniadau cynllunio cyffredinol a gafwyd o fewn penderfyniadau barnwriaethol - megis y rhai hynny sy'n ymwneud â dechrau datblygu heb gydymffurfio â'r holl amodau ynghlwm wrtho (datganwyd yn *Whitley v yr Ysgrifennydd Gwladol*); egwyddor rhoi'r gorau i ddefnydd; a chyfreithlondeb amodau. Yma hefyd ystyriodd rhai ymatebwyr y byddai egluro'r gyfraith o gymorth: dywedodd eraill bod rhaid bod yn ofalus.
- 4.5 Fe gyflwynon ni nifer o gynigion penodol yn y Papur Cwmpasu, gan wahodd ymatebwyr i awgrymu rhai eraill. Yng nghyfnod mwyaf diweddar yr ymarfer, ystyrion ni eto ein hargymhellion cynharach, gan archwilio'r rhai a awgrymwyd gan ymatebwyr; ac rydym wedi taro ar nifer fwy o gynigion yn ystod y gwaith.
- 4.6 Ystyriwn yr amryfal bwyntiau hyn yn Rhan Dau o'r Papur Ymgynghori, lle cyflwynwn nifer o gynigion amodol a gwahodd sylwadau.

Rhan dau: pynciau penodol

Cyfeiria'r hyn sydd mewn cromfachau sgwâr at y prif gwestiynau yn y Papur Ymgynghori. Mae rhestr lawn o'r cwestiynau ar ddiwedd y Papur Ymgynghori.

PENNOD PUMP: DARPARIAETHAU RHAGARWEINIOL

Egwyddorion sydd yn sail i'r Côd Cynllunio

- 5.1 Ystyriwn yn gyntaf ddiben statudol y system gynllunio, a'r dyletswyddau a ddylai arwain cyrff cyhoeddus sydd yn arferol gweithredu swyddogaethau dan y Côd Cynllunio.
- 5.2 Mae'r ddyletswydd i roi sylw i'r cynllun datblygu, cyn belled ag y mae o bwys i'r mater dan sylw, yn berthnasol ar hyn o bryd i benderfyniadau ar geisiadau ac apeliadau cynllunio (o fewn adrannau 70 a 79) ac i lawer o swyddogaethau eraill dan y Deddfau cynllunio - ond dim pob un o bell ffordd. Ac mae'r ddyletswydd honno, lle mae'n berthnasol, o'r pwysigrwydd mwyaf. Ystyriwn yn amodol y dylid ymestyn y ddyletswydd fel ei bod yn berthnasol, a hynny'n glir ac yn amlwg, i weithredoedd cyrff cyhoeddus a ddefnyddia unrhyw un o'i swyddogaethau dan y Côd. **[5-1]**.
- 5.3 Mae gan bob corff cyhoeddus ddyletswydd gyffredinol wrth arfer ei swyddogaethau i roi sylw i'r holl faterion sydd yn berthnasol, a diystyru'r holl rhai hynny sydd yn amherthasol. Ond mae DCGTh 1990 yn ei gwneud yn gwbl ofynnol i'r rhai sy'n arfer swyddogaethau penodol dan y Deddfau Cynllunio roi sylw i'r "holl ystyriaethau eraill o bwys". Nid ystyriwn y byddai o gymorth (ac efallai ni fyddai'n bosib) i ddiffinio'r ymadrodd yma, ond ystyriwn yn amodol y byddai o gymorth i'r ddyletswydd cael ei osod mewn ffordd clir ac amlwg arfer unrhyw swyddogaethau dan y Côd. Awgrymw'n hefyd y byddai o gymorth pe bai'r gair "perthnasol" yn disodli'r gair "o bwys", yn unol â'r defnydd cyfredol a wneir o'r Saesneg. **[5-2;5-3]**
- 5.4 Rhydd y Ddeddf Adeiladau Rhestredig ddyletswydd ar y rhai hynny sy'n penderfynu ar geisiadau am ganiatâd cynllunio a chaniatâd adeiladau rhestredig i roi sylw arbennig i'r dymunoldeb o ddiogelu adeiladau rhestredig a rhoi sylw i'r dymunoldeb o ddiogelu neu gwella ardaolaeth cadwraeth. Ystyriwn yn amodol y byddai'n ddoeth i unrhyw gorff cyhoeddus sy'n arfer unrhyw swyddogaeth mewn perthynas ag unrhyw ased hanesyddol (yn cynnwys henebion rhestredig a safle treftadaeth y byd) roi sylw i'r dymunoldeb o ddiogelu neu wella'r ased, ei nodweddion a'i leoliad. **[5-4]**
- 5.5 Cyflwynodd y DC(C) 2015 ddyletswyddau i roi sylw i ystyriaethau sydd yn ymwneud â'r defnydd a wneir o'r Gymraeg, ond dim ond mewn perthynas â gwerthuso cynlluniau datblygu drafft a gwneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio. Ystyriwn yn amodol y dylai ystyriaethau o'r fath fod yn berthnasol mewn perthynas ag arfer unrhyw swyddogaeth dan y Côd, cyn belled ei bod nhw yn berthnasol i arfer y swyddogaeth honno, trwy gael eu cynnwys yn glir ac yn amlwg fel ystyriaeth berthnasol (gweler paragraff 5.3 uchod). **[5-5]**

- 5.6 Mynnir bod rhaid i awdurdodau cynllunio roi sylw i bolisiâu Llywodraeth Cymru wrth baratoi eu cynlluniau datblygu. Ond ni chrybwyllir polisiâu o'r fath yn unman yn DCGTh 1990, er eu bod mewn gwirionedd yn ffactor pwysig yn y mwyafrif o benderfyniadau cynllunio, onid pob un ohonynt. Felly, ystyriwn yn amodol y dylent hefyd gael eu cynnwys yn glir ac yn amlwg yn y rhestr o ystyriaethau perthnasol. **[5-6]**
- 5.7 Cyflwynodd adran 2 o'r DC(C) 2015 ddyletswydd i gyrff cyhoeddus sy'n arfer rhai swyddogaethau dan y Deddfau cynllunio - ond, unwaith eto, dim pob un ohonynt - wneud hynny fel rhan o'u dyletswydd i wneud gwaith datblygu cynaliadwy dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Ystyriwn yn amodol fod y ddyletswydd gyffredinol dan adran 3 o'r Ddeddf Llesiant yn berthnasol i'r holl swyddogaethau cynllunio; ac nad yw'n angenrheidiol i ailddatgan y ddyletswydd mewn ffasiwn fwy cyfyngedig na'r hyn a roddir ar hyn o bryd gan adran 2 DC(C) 2015. **[5-7]**
- 5.8 Yn wyneb yr ystyriaethau uchod, nid ystyriwn ar hyn o bryd bod angen darpariaeth statudol i chrybwylo diben cyffredinol y system cynllunio. **[5-10]**

Gweinyddu'r system cynllunio

- 5.9 Rydym wedi ystyried os oes angen darpariaeth fer yn y Côd i gydnabod bodolaeth yr Arolygiaeth Gynllunio. Nid ydym wedi cyrrhaedd i unrhyw gasgliad amodol, ond fe fyddai yn ddefnyddiol pe cyfeirid at bersonau a benodir gan Weinidogion Cymru i gyflawni swyddogaethau amrywiol fel arolygwyr neu "archwilwyr" ac nid fel "personau a benodir", er mwyn cydymffurfio ag arfer cyffredol. **[5-11]**
- 5.10 Nodwn nad oes yr un corff ar wahân i awdurdod lleol neu awdurdod parc cenedlaethol erioed wedi ei ddynodi'n "awdurdod cynllunio lleol". Yn unol â hynny, ystyriwn nad oes angen cynnwys yn y Bil bwerau i awdurdodau parth menter, corfforaethau datblygu trefol, ymddiriedolaethau gweithredu ar dai a chorfforaethau datblygu trefi newydd gael eu dynodi'n awdurdodau cynllunio. **[5-12]**
- 5.11 Ystyriwn yn amodol hefyd, yn wyneb system unedol llywodraeth leol yng Nghymru, y dylid defnyddio'r term symlach "awdurdod cynllunio" yn lle "awdurdod cynllunio lleol" ac "awdurdod cynllunio mwynau". **[5-13]**

PENNOD CHWECH: LLUNIO'R CYNLLUN DATBLYGU

Y cynllun datblygu

- 6.1 Pwnc testun Rhan 6 DCPG 2004 yw gwaith paratoi amryfal rannau'r cynllun datblygu yng Nghymru, a ddiwygiwyd yn sylweddol gan DC(C) 2015. Pan fydd y diwygiadau hynny wedi dod i rym yn llwyr, bydd y "cynllun datblygu" yn cynnwys y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, y cynllun datblygu strategol a'r cynllun datblygu lleol.
- 6.2 Bron na chafwyd fawr ddim sylwadau gan ymatebwyr i'r Papur Cwmpasu mewn perthynas â gwaith paratoi'r cynllun datblygu. Yn ogystal â hyn, mae'r diwygiadau i'r ddeddfwriaeth sylfaenol berthnasol yn rhai diweddar, sydd heb profi yn ymarferol. Ystyriwn yn amodol, felly, y dylid ailddatgan y darpariaethau sydd ar hyn o bryd yn ffurfio Rhan 65 o DdCPG 2004, fel y cafwyd ei ddiwygio yn y Bil. **[6-1]**

- 6.3 Mae'r broses ar gyfer llunio pob cydran o'r cynllun datblygu yn cynnwys asesiad cynaliadwyedd (AC). Yn ychwanegol, rhaid cynnal asesiad amgylcheddol o bob cydran, yn unol â rheoliadau sydd yn gweithredu cyfarwydddeb yr UE ar asesiad amgylcheddol cynaliadwy (AAC). Noda *Llawlyfr y Cynllun Datblygu* a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru ei bod yn orau i ymgorffori gofynion Rheoliadau AAC yn y broses AC. Felly, gwahoddwn farnau ar yr angen i'r broses AAC fod yn ofyniad ar wahân, ochr yn ochr i'r gofyniad am werthusiad cynaliadwy. **[6-3]**

Malltod cynllunio

- 6.4 Ystyriwn yn amodol y dylid ailddatgan y darpariaethau statudol sy'n ymwneud â hysbysiadau malltod (ym Mhennod 2, Rhan 6 DCGTh 1990) yn y Bil Cynllunio, yn fras yn eu ffurf presennol. **[6-5]**

PENNOD SAITH: YR ANGEN AM GAIS CYNLLUNIO

Diffiniad "datblygu"

- 7.1 Mae darpariaethau adran 55 o'r DdCGTh 1990, sy'n darparu diffiniad estynedig o "datblygiad" – lle mae, fel arfer, angen caniatâd cynllunio - wrth galon y system gynllunio.
- 7.2 Mae'r gyfraith sydd yn delio â'r angen i gael caniatâd cynllunio i ddymchwel yn enwog am ei gymhlethdod. Ystyriwn yn amodol y gellid ei symleiddio trwy gael gwared o bŵer Gweinidogion Cymru i eithrio mathau penodol o waith dymchwel o ddiffiniad "datblygiad", a defnyddio y GDCG er mwyn sicrhau yr un canlyniad. **[7-1]**
- 7.3 Yn gyffredinol, caiff gwaith adeiladu ei eithrio o'r gofyniad am caniatâd cynllunio, ac eithrio gwaith i greu lle newydd dan ddaear, a gwaith i greu lle ychwanegol sylweddol o fewn siopau manwerthu. Ystyriwn yn amodol y gellid symleiddio'r gyfraith trwy gyflwyno un ddarpariaeth i nodi bod unrhyw gwaith i gynyddu arwynebedd llawr adeilad, dan ddaear neu fel arall, yn cael ei ystyried fel gwaith datblygu bob tro - gyda'r GDCG yn darparu ar gyfer achosion lle câi gwaith o'r fath ei ganiatáu'n awtomatig. **[7-2]**
- 7.4 Datgan y DdCGTh 1990 bod newid defnydd adeilad (neu ran o adeilad) o un annedd i ddau yn cael ei ystyried fel gwaith datblygu sydd yn gofyn caniatâd ar hyn o bryd: ond mae'r sefyllfa'n llai clir o ran newid i'r cyfeiriad arall. Ystyriwn yn amodol y byddai'n haws pe câi unrhyw newid yn nifer yr anheddau mewn adeilad eu categoreiddio fel newid defnydd o bwys ac, felly, fel gwaith datblygu. **[7-5]**
- 7.5 Mae eithriadau eraill o'r diffiniad o ddatblygiad sydd wedi bod yn y Ddeddf ers sawl blwyddyn; nid ydym yn gwneud cynigion i newid rhain. Ar gyfer unrhyw eithriad newydd, ystyriwn eu ddarperir yn orau yn y GDCG yn hytrach na thrwy darpariaethau'r Ddeddf.
- 7.6 Datgan y Ddeddf bod modd i ganiatâd cynllunio gael ei roi trwy gynllun parth menter: nid oes cynllun o'r fath wedi'i greu yng Nghymru dros ddeng mlynedd ar hugain blwyddyn. Nid oes fawr ddim defnydd wedi ei gwneud o barthau cynllunio syml chwaith, a grëwyd yn 1986, ac yn ôl pob tebyg, erioed yng Nghymru. Ystyriwn nad oes angen y ddwy weithdrefn, yn enwedig felly yng nghwyneb bodolaeth gorchmynion

datblygu lleol, a gofynwn i ymgynghorwyr os gellid diddymu y ddwy weithred. **[7-9, 7-10]**

Tystysgrifau cyfreithlondeb

- 7.7 Dylai tirfeddianwyr gael ffordd eithaf hygyrchol o sefydlu yr hyn a gellir cyflawni gyda eu heiddo. Mae proses yn bodoli er mwyn galluogi unrhyw un i gael tystysgrif cyfreithlondeb defnydd neu ddatblygiad sydd eisoes yn bodoli (neu sydd yn arfaethedig). Ystyriwn yn amodol y dylid cynnwys y darpariaethau statudol sy'n ymwneud â thystysgrifau o'r fath ochr yn ochr â'r rhai sydd yn ymwneud â'r angen am ganiatâd cynllunio - fel yr oeddent cyn 1991 - yn hytrach nag yn gysylltiedig â gorfodaeth. **[7-11]**
- 7.8 Cynigiwn hefyd y dylid tybio'n awtomatig bod cais am ganiatâd cynllunio yn cynnwys cais am dystysgrif o'r fath yng nghyswllt y datblygiad y mae'r cais hwn yn ymwneud ag ef. **[7-12]**

PENNOD WYTH: CEISIADAU I'R AWDURDOD CYNLLUNIO

Ceisio caniatâd cynllunio

- 8.1 Ar hyn o bryd, mae'n bosib cyflwyno cais am ganiatâd cynllunio am gwaith datblygu. Gellid rhoi caniatâd o'r fath gydag amodau sydd yn gofyn am cymeradwyaeth pellach am faterion penodol cyn ddechrau'r datblygiad. Yn ail, mae'n bosib gwneud cais am ganiatâd a chael y caniatâd hwnnw ar ôl i'r datblygiad gael ei orffen. Yn drydydd, mae'n bosib gwneud cais am ganiatâd amlinellol, gan gadw materion penodol i gael eu cymeradwyo yn hwyrach yn y broses.
- 8.2 Ystyriwn yn amodol ei bod yn symlach i diddymu caniatâd cynllunio amlinellol a chael un weithdrefn lle byddai angen i rwyun sydd yn bwriadu gweud gwaith datblygu na chaniateir drwy orchymyn datblygu - neu sydd yn ceisio awdurdodi gwaith datblygu sydd eisoes wedi ei gwneud - gwneud cais cynllunio, gyda deunydd digonol ynghlwm wrtho, er mwyn disgrifio'r datblygiad. Byddai'r ymgeisydd yn gallu gwahodd yr awdurdod cynllunio i roi caniatâd gan gadw'n ôl un neu ddau o faterion na roddwyd digon o fanylion yn eu cylch, yn y cais er mwyn eu cymeradwyo yn y dyfodol - gallai'r awdurdod gytuno i wneud hyn neu wrthod. Cynigiwn yn amodol hefyd y gallai awdurdod, fel y gallent ar hyn o bryd, roi caniatâd gydag amodau sydd yn cadw materion penodol yn ôl, ar gyfer eu cymeradwyo yn hwyrach ymlaen. **[8-1]**
- 8.3 Mae'n bwysig bod y cais cynllunio yn cynnwys digon o ddeunydd i alluogi'r awdurdod cynllunio a chyrrff eraill sydd â diddordeb wybod yn union yr hyn a fwriedir. Lle ystyrir bod deunydd sydd ynghlwm wrth gais yn annigonol, gall yr awdurdod cyflwyno hysbysiad i'r ymgeisydd fod y cais yn annilys - mae yna hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad hyn. Yn wyneb y ddarpariaeth honno, ystyriwn yn amodol nad yw adran 327A DCGTh 1990 - sy'n datgan na ddylai awdurdod ystyried cais o'r fath, yn ddefnyddiol, ac ni ddylid ei haildatgan yn y Bil newydd. **[8-2]**

Penderfynu ar geisiadau cynllunio

- 8.4 Dan adran 70A DCGTh 1990, mae gan awdurdod cynllunio bŵer i wrthod cais lle mae'r ymgeisydd yn ceisio gorflino'r awdurdod, trwy gyflwyno ceisiadau tebyg dro ar

ôl tro. Ystyriwn yn amodol y dylid rhoi effaith i'r fersiwn diwygiedig o adran 70A, a gyflwynwyd gan adran 43 DCPG 2004 yng Nghymru. Ond ni welwn unrhyw ddiben yn adran 70B, sydd yn atal cyflwyniad dau cais cynllunio tebyg yr un pryd - arfer sydd â nifer o fanteision ymarferol. **[8-4, 8-5]**

Amodau sydd ynghlwm wrth ganiatâd cynllunio

- 8.5 Cynigiwn yn amodol y dylid dileu gwahaniaethau rhwng amodau a chyfyngiadau. **[8-8]**
- 8.6 Mae'r prawf ar gyfer dilysrwydd amod fel yr eglurwyd gan Dŷ'r Arglwyddi yng *Nghyngor Dosbarth Newbury v yr Ysgrifennydd Gwladol* [1981], ac esboniwyd yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru. Ystyriwn yn amodol y dylid ei cynnwys mewn deddfwriaeth sylfaenol. **[8-9]**
- 8.7 Cynigiwn yn amodol hefyd y dylid cynnwys pŵer penodol er mwyn gosod mathau penodol o amodau. **[8-10, 8-11, 8-14 ac 8-16]**
- 8.8 Ar hyn o bryd, ceir ansicrwydd ynghylch statws cyfreithiol amodau cyn-gychwynol - neu amodau sydd yn gofyn am rhywbeth cyn dechrau'r gwaith datblygu. Ystyriwn yn amodol y gallai pŵer (ond nid dyletswydd) o'r fath yma fod o gymorth i awdurdodau gallu categorio amodau penodol fel "gwir ragamodau", sy'n mynd i galon y caniatâd, fel y byddai methiant i gydymffurfio â nhw yn golygu y byddai dechrau unrhyw ran o'r datblygiad yn anghyfreithlon. Byddai categorio amodau o'r fath yn amodol ar hawl i apelio. Gofynnwn i ymgynghorwyr am ffyrdd eraill o ddatrys yr ansicrwydd hwn. **[8-13]**

Cymeradwyo manylion sy'n ofynnol gan amodau

- 8.9 Mewn rhai achosion, mae'n ofynnol i ganiatáu amodau sydd ynghlwm wrth ganiatâd cynllunio cyn dechrau'r datblygiad. Nid yw'r gweithdrefn sydd yn rheoli'r broses o ennill caniatâd o'r fath mor glir ag y dymunid, a chynigiwn yn amodol y dylid ei thynhau. **[8-17 i 8-19]**
- 8.10 Lle rhoddir caniatâd cynllunio trwy orchymyn datblygu, mewn rhai achosion (yn enwedig mewn perthynas ag amaethyddiaeth a choedwigaeth) mae'n ofynnol rhoi gwybod i awdurdod cyn dechrau'r gwaith, fel bod modd iddynt i ofyn am gyfle i ganiatáu manylion y gwaith arfaethedig. Cynigiwn yn amodol y dylid bod terfyn amser o fewn yr hyn y gall yr awdurdod ymateb i hysbysiad o'r fath **[8-20]**.

Amrywio caniatâd cynllunio

- 8.11 Ar hyn o bryd mae'n bosib ceisio diwygio caniatâd cynllunio, neu amod sydd ynghlwm wrtho, dan adran 73 neu 96A DCGTh 1990. Pennir yr union weithdrefn gan natur a maint y newid arfaethedig. Cynigiwn yn amodol y dylid dod â'r gweithdrefnau hyn ynghyd mewn un gweithdrefn er mwyn galluogi ymgeisydd i wneud cais i amrywio caniatâd. **[8-21]**
- 8.12 Cynigiwn hefyd cyflwyno gweithdrefn cyflym sydd yn galluogi ymgeisydd i geisio cymeradwyaeth i amrywio caniatâd unwaith y mae'r gwaith datblygu wedi dechrau. **[8-22]**

PENNOD NAW: CEISIADAU I WEINIDOGION CYMRU

- 9.1 Mae'r darpariaethau yn DCGTh 1990 sy'n galluogi i gais cynllunio gael ei wneud yn uniongyrchol i Weinidogion Cymru ym maes awdurdod cynllunio sy'n tanberfformio, yn rhai diweddar - wedi'u cyflwyno gan DC(C) 2015 - ac nid ydym yn cynnig unrhyw newid. **[9-1]**
- 9.2 Penderfynir ar geisiadau am ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol gan Weinidogion Cymru yn wyneb adroddiad gan arolygwr. Yma hefyd, mae'r ddeddfwriaeth sylfaenol ac eilaidd berthnasol yn un ddiweddar ac nid yw, hyd yn hyn, wedi'i phrofi'n llwyr mewn ymarfer; ac nid ydym yn cynnig unrhyw newid ar wahân i un neu ddau o fanylion bychain **[9-2 i 9-4]**
- 9.3 Cyflwynwyd gweithdrefnau i ganiatáu sefydliad comisiynau ymchwiliadau cynllunio i benderfynu ar gynigion o bwys mawr neu ar gyfer codi ystyriaethau technegol newydd yn 1968, ac nid ydynt erioed wedi eu cael ei defnyddio. Ystyriwn yn amodol y dylid eu diddymu. **[9-5]**

PENNOD 10: DARPARU SEILWAITH A GWELLIANNAU ERAILL

Ardoll Seilwaith Cymunedol (ASC)

- 10.1 Cyflwynwyd yr Ardoll Seilwaith Cymunedol (ASC) gan y Ddeddf Cynllunio 2008. Fe fydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cymru ar ôl i'r newidiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf Cymru 2017 cymeryd grym. Mae'n debygol y bydd Llywodraeth Cymru yn dymuno adolygu gweithrediad ASC yng Nghymru serch y newidiadau yma, a byddai'n annhymig i mynd o flaen adolygiad o'r fath.
- 10.2 Felly, ystyriwn yn amodol y dylid cynnwys darpariaethau statudol sy'n ymwneud ag ASC, ac sydd ar hyn o bryd yn Rhan 11 Deddf 2008 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Lleoliaeth 2011), yn y Bil. **[10-1]**

Rhwymedigaethau cynllunio

- 10.3 Cynigiwn yn amodol y dylid cynnwys darpariaethau DCGTh 1990 sydd yn ymwneud â rhwymedigaethau cynllunio (yn adrannau 106 i 106B) yn y Bil. Dylid hefyd cynnwys rheoliadau o ran dibennau dymunol ymrwymadau rhwymedigaethau cynllunio, sydd ar hyn o bryd yn rheoliad 122 o'r Rheoliadau 2010 ASC. **[10-2, 10-3]**
- 10.4 Cynigiwn hefyd y dylid symleiddio y broses o orfodi rhwymedigaethau cynllunio trwy gynnwys torri rhwymedigaeth o'r fath yn niffiniad torri rheolau cynllunio. **[10-5]**
- 10.5 Gofynnwn os fyddai o gymorth i gyflwyno yng Nghymru gweithdrefn i alluogi datrys anghydfodau o ran termau rhwymedigaeth cynllunio, yn debyg i'r un a ragwelir gan Atodlen 9A DCGTh 1990, fydd yn cael ei chyflwyno yn Lloegr gan Ddeddf Tai a Chynllunio 2016. **[10-8]**
- 10.6 Awgrymwn hefyd y dylai fod yn bosib i awdurdod cynllunio glymu tir eu hunain trwy rhwymedigaethau cynllunio, ac i berson ar wahân i'r tiffeddiannwr (megis darpar brynwr) i allu ymrwymo i rwymedigaeth o'r fath. **[10-10, 10-11]**

PENNOD UN AR DDEG: APELIADAU A DARPARIAETHAU ATODOL ERAILL

Apeliadau

- 11.1 Datgan DCGTh 1990 bod y rhai hynny sy'n penderfynu apêl **"gallu** ymdrin â chais fel pe byddai wedi'i wneud iddynt yn y lle cyntaf". Cynigiwn yn amodol y dylai'r Bil ei gwneud yn glir y byddant wastad yn ystyried y ceisiadau o'r newydd. **[11-1]**
- 11.2 Ar hyn o bryd, gall Gweinidogion Cymru ragnodi dosbarthiadau o apeliadau i'w pennu gan berson a benodir ganddynt (yn ymarferol, arolygwr). Pennir y mwyafrif llethol ohonynt y ffordd honno. Felly, cynigiwn dros dro y dylai'r Bil ddatgan bod rhaid i bob apel cael ei benderfynu gan arolygwyr (neu archwilwyr; gweler paragraff 5.09 uchod), oni ddywedir fel arall - yn hytrach na'r gwrthwyneb. **[11-2]**
- 11.3 Cynigiwn hefyd y dylid ymestyn y pŵer i benodi aseswyr i gynorthwyo arolygwyr fel ei fod yn berthnasol i'r holl apeliadau, gan gynnwys y rhai hynny a benderfynir ar sail sylwadau ysgrifenedig. **[11-3]**

Darpariaethau atodol eraill

- 11.4 Lle bydd hysbysiad prynu yn cael ei gyflwyno yn sgil apêl aflwyddiannus i Weinidogion Cymru yn erbyn gwrthodiad caniatâd cynllunio, nid yw'n glir beth yw dechrau'r cyfnod 12 mis i gyflwyno hysbysiad ynddo. Cynigiwn y dylai'r Bil egluro mai penderfynu ar yr apêl ydyw. **[11-5]**
- 11.5 Mae pwerau Gweinidogion Cymru i ddileu hawliau cyhoeddus dros briffordd lle mae awdurdod cynllunio yn dymuno ei phedestreddio yng nghyswllt â cynllun i wella'r ardal, dan adran 249 DCGTh 1990, yn debyg i (ond yn llai eang na) phŵer awdurdod i bedestreddio ffordd (gan gynnwys ffordd gyhoeddus) dan adran 1 Deddf Rheoliad Traffig Ffordd 1984. Awgrymwn, felly, na dylid ailddatgan adrannau 249 a 250 DCGTh 1990 yn y Bil. **[11-8]**

PENNOD DEUDDEG: DATBLYGU ANAWDURDODEDIG

- 12.1 Yn y bennod hon, gwnawn nifer o gynigion cymharol fychan o ran diwygiadau technegol i weithdrefn, sydd wedi eu llunio i wella gweithrediad y system orfodi - yn enwedig felly yn ngwyneb cyfraith achos perthnasol. Amlygwn rhai ohonynt isod.

Gweithdrefn ragarweiniol

- 12.2 Ar hyn o bryd, mae dwy weithdrefn sydd yn galluogi awdurdod cynllunio i gael gwybodaeth am berchnogaeth tir a'i ddefnydd - dan adrannau 171C a 330 DCGTh 1990. Awgrymwn yn amodol y byddai'n well cael un weithdrefn. **[12-1]**
- 12.3 Caiff rhai gweithdrefnau gorfodi eu haddasu yn eu cais i "annedd-dai" - mynediad heb rybudd ymlaen llaw; cyflwyno hysbysiadau atal dros dro a hysbysiadau atal. Cynigiwn yn amodol y dylai hyn cael ei ddefnyddio ar gyfer pob anhedd, yn cynnwys fflatiau. **[12-2, 12-5, 12-15]**

Hysbysiadau gorfodi

- 12.4 Ystyriwn yn amodol y byddai o gymorth pe byddai hysbysiad gorfodi nodi yn benodol y diben neu'r dibenion y bwriedir eu cyflawni gan y camau y cymerant ac y gallai

hysbysiad sy'n ymwneud â newid defnydd anawdurdodedig ei gwneud yn ofynnol cael gwared â gwaith adeiladu sy'n rhan annatod i'r newid defnydd. **[12-9, 12-10]**

- 12.5 Tybir bod apelydd sy'n apelio yn erbyn hysbysiad gorfodi am "reswm (a)" (y dylid rhoi caniatâd i'r datblygiad anawdurdodedig honedig) wedi gwneud cais am ganiatâd cynllunio. Ni ystyriwn bod unrhyw bwrpas i'r cyfeiriad hwn at "gais cynllunio tybiedig". Cynigiwn yn amodol y gallai Gweinidogion Cymru, wrth benderfynu apêl rheswm (a), roi caniatâd cynllunio, neu ryddhau'r amod dan sylw, neu ddyroddi tystysgrif cyfreithlondeb, yn ei lle, fel yn briodol.

Hysbysiadau atal

- 12.6 Ar hyn o bryd "cyflwynir" hysbysiad atal i'r rhai hynny sydd yn gyfrifol amdanynt. Cynigiwn yn amodol, yn debyg i hysbysiadau gorfodi, y dylai awdurdod cynllunio "ddyroddi" hysbysiad atal, fel ei bod yn dod i rym ar y dyddiad a nodir ynddo; yna gellid cyflwyno copïau fel yn briodol. Byddai'r drosedd o beidio cydymffurfio â hysbysiad atal yn ymwneud â hysbysiad sydd wedi dod i rym, yn hytrach nag un sydd wedi'i gyflwyno. **[12-16, 12-17]**

Cosbau troseddol

- 12.7 Rydym wedi adolygu'r cosbau ar gyfer yr amryfal droseddau a grëwyd gan DCGTh 1990, ac awgrymwn eu gwneud yn fwy cyson. Dylai'r drosedd cyflenwi gwybodaeth ffug mewn ymateb i gais ddenu dirwy, nid dedfryd o garchar. Dylai achos o fethu cydymffurfio ag achos o dorri hysbysiad amod, neu adfer adeilad anawdurdodedig [ac ati] ar ôl cydymffurfio â hysbysiad gorfodi fynd gerbron naill ai ynadon neu Lys y Goron, ac (yn y naill achos a'r llall) gael ei gosbi ar ei gael yn euog â dirwy o unrhyw swm.

PENNOD TRI AR DDEG: GWAITH SY'N CAEL EFFAITH AR ADEILADAU RHESTREDIG AC ARDALOEDD CADWRAETH

Caniatadau sy'n gorgyffwrdd

- 13.1 Ar hyn o bryd, mae'n ofynnol cael caniatâd cynllunio ar gyfer gwaith datblygu sy'n cael effaith ar adeiladau rhestredig, gydag eraill mae'n ofynnol cael caniatâd adeilad rhestredig a chyda rhai mae'n ofynnol cael y ddau fath o ganiatâd. Mewn rhai achosion mae cyfyngiadau gwaith datblygu a ganiateir gan orchymyn datblygu yn wahanol yn achos gwaith sy'n cael effaith ar adeilad rhestredig. Mae'n ofynnol cael caniatâd cynllunio a chaniatâd ardal gadwraeth i ddymchwel adeilad anrhestredig mewn ardal gadwraeth, ond rhoddir caniatâd cynllunio'n awtomatig (gan orchymyn datblygu). Gall penderfynu pa ffurf o ganiatâd sy'n ofynnol ar gyfer unrhyw fwriad penodol fod yn ddryslyd a chymhleth.
- 13.2 Pan bod dau fath o ganiatâd yn ofynnol, fe fydd gofyn am ddau gais, dau adroddiad pwyllgor, dau benderfyniad; a, lle bo'n briodol, dwy apêl, dau benderfyniad apêl, dau hysbysiad gorfodi, dwy apêl gorfodi ac, unwaith eto, dau benderfyniad apêl. Fel arfer caiff y ddau ganiatâd eu rhoi, neu eu gwrthod. Mae yn bosib caniatáu un a gwrthod y llall, ond mae ystodau fel hyn yn brin.

- 13.3 Bydd yr un ystyriaethau polisi yn sail i'r ddau fath o benderfyniad - y ddyletswydd i ddiogelu'r adeilad rhestredig, a'r ddyletswydd i ddiogelu a gwella'r ardal gadwraeth; y cynllun datblygu; a'r holl ystyriaethau perthnasol eraill.
- 13.4 Yn wyneb y gorgyffwrdd sylweddol rhwng yr amryfal ganiatadau, fe geision ni canfasu barnau ynglun a'r posibilrwydd o uno'r ddau fath o ganiatâd. Roedd mwyafrif o ymatebwyr (61%) o blaid y syniad, cododd eraill amryfal bryderon. Felly, rydym wedi ystyried amryfal opsiynau, yn amrywio o dim newid (cadw caniatâd cynllunio, caniatâd adeilad rhestredig a chaniatâd ardal gadwraeth, fel ar hyn o bryd), trwodd i ymestyn diffiniad datblygu er mwyn ymgorffori'r holl waith y mae caniatâd adeilad rhestredig yn gofyn amdani ar hyn o bryd - dymchwel adeiladau rhestredig, gwaith newid neu ymestyn adeilad rhestredig er mwyn cael effaith ar ei gymeriad fel adeilad o ddi-ddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig, a dymchwel adeilad anrhestredig mewn ardal gadwraeth.
- 13.5 Ystyriwn yn amodol y ceid manteision sylweddol o gyfuno pob un o'r tri chaniatâd yn un. Ni fyddai hyn yn cael gwared o'r angen i gael caniatâd ar gyfer unrhyw gwaith sydd yn gofyn am un neu fwy o'r tri chaniatâd ar hyn o bryd; ni fyddai ychwaith yn newid sail y polisi a ddefnyddid i benderfynu ar y cais am ganiatâd. **[13-1]**

Pwyntiau manwl

- 13.6 Ystyriwn os fyddai cyfuno'r tri chaniatâd yn golygu y gellid rhoi caniatâd cynllunio am unrhyw waith o'r fath mewn egwyddor trwy orchymyn datblygu neu gytundeb partneriaeth treftadaeth. Gallai hefyd yn awtomatig alluogi unrhyw un i gael tystysgrif cyfreithlondeb i benderfynu a fyddai caniatâd yn ofynnol. **[13-2 i 13-4]**
- 13.7 Cynigiwn yn amodol y dylid diwygio'r rheswm dros apelio yn erbyn gwrthod caniatâd cynllunio, fel ei fod yn cynnwys y rhesymau penodol sydd eisoes yn bodoli ac sy'n ymwneud ag adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth. **[13-5]**

Gwaith anawdurdodedig

- 13.8 Awgrymwn bod gwaith anawdurdodedig i adeiladau rhestredig a gwaith dymchwel anawdurdodedig mewn ardal gadwraeth yn parhau'n drosedd, fel ar hyn o bryd - gyda'r un gosb a'r amddiffynfeydd â'r troseddau cyfatebol sydd eisoes yn bodoli dan y Ddeddf Adeiladau Rhestredig. **[13-6]**
- 13.9 Cynigiwn yn yr un modd na ddylai'r terfynau amser o fewn yr hyn y mae'n bosib cymryd camau gorfodi fod yn berthnasol mewn achos datblygiad treftadaeth. A gellid diwygio'r rhesymau dros apelio yn erbyn hysbysiadau gorfodi, er mwyn cynnwys y rhesymau penodol sydd eisoes yn bodoli ac sy'n ymwneud ag adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth. **[13-7, 13-8]**

Pwyntiau eraill

- 13.10 Ni chynigiwn gyfuno caniatâd heneb restredig gyda chaniatâd cynllunio, gan fod yr awdurdod cydsynio'n wahanol, ac mai prin iawn y bydd y gwaith sydd ynghlwm yn gorgyffwrdd â'r rhai hynny y mae caniatâd cynllunio'n ofynnol ar eu cyfer. **[13-9]**
- 13.11 Nid yw'r gyfraith o ran faint o warchodaeth a gynigir trwy restru (ar hyn o bryd yn adran 1(5) Deddf Adeiladau Rhestredig 1990) yn glir yn y modd y mae'n cyfeirio at wrthrychau a strwythurau yng nghwrtill adeilad a gynhwysir yn y rhestr. Cynigiwn y

dylid ei gwneud yn glir y bydd gwrthrychau a strwythurau cyn 1948 yn cael eu cynnwys os oeddynt o fewn cwrtil yr adeilad yn y rhestr fel ag yr oedd 1 Ionawr 1969 neu, os cafodd yr adeilad ei restru wedi'r dyddiad hwnnw, os oeddynt o fewn ei gwrtil ar y dyddiad y cafodd ei restru. **[13-10]**

- 13.12 Cyflwynwyd ardaloedd o bwysigrwydd archeolegol yn 1979; a dynodwyd pump yn 1984, i gyd yn Lloegr. Nid ydynt erioed wedi'u defnyddio yng Nghymru. Awgrymwn y dylid diddymu'r pŵer i'w dynodi. **[13-11]**

PENNOD PEDWAR AR DDEG: HYSBYSEBU YN YR AWYR AGORED

Diffiniadau

- 14.1 Mae diffiniad "hysbyseb", yn adran 336 DCGTh 1990, yn anfoddfaol - yn enwedig felly oherwydd ei fod yn gylchol. Cynigiwn iddo gael ei egluro. Cynigiwn hefyd ddefnyddio'r gair "tir" yn lle "safle" a rhoi diffiniad cliriach o "person sy'n arddangos hysbyseb". Cynigiwn hefyd y dylid cynnwys y diffiniadau hyn yn y Bil ochr yn ochr â'r darpariaethau eraill sy'n ymwneud â hysbysebu. **[14-1 i 14-4]**

Caniatâd tybiedig

- 14.2 Gan fod rheoli hysbysebion yn bennaf yn destun rheoliadau, yn hytrach nag mewn deddfwriaeth sylfaenol, rydym hefyd wedi cynnwys rhai awgrymiadau ar gyfer newidiadau y byddai angen eu cyflwyno pan gaiff y rheoliadau eu diweddarau nesaf.
- 14.3 Cynigiwn dros dro y dylid tynhau'r gweithdrefnau sy'n ymwneud â hysbysiadau dirwyn i ben - gwneud i ffwrdd â'r caniatâd tybiedig am hysbysebion penodol - fel y caiff hysbysiad ei ddyroddi gan yr awdurdod gyda chopiau'n cael eu cyflwyno i'r rhai hynny y tybir eu bod yn arddangos yr hysbyseb, a'i fod yn dod i rym ar ddyddiad a nodir ynddi. Deuai hyn â'r gweithdrefnau'n unol â'r rhai hynny sy'n ymwneud â hysbysiadau gorfodi. **[14-5]**
- 14.4 Cynigiwn hefyd y dylid rhoi caniatâd tybiedig i arddangos hysbysebion sydd â chaniatâd cynllunio (megis wyneb siop) - er mwyn osgoi ei gwneud yn hanfodol cael dau ganiatâd. Cynigiwn hefyd y dylid dod ag arddangos hysbyseb ar y tu allan i gerbyd (ar wahân i ar briffordd) o fewn cwmpas y rheoliadau a bod ganddynt fel arfer ganiatâd tybiedig, er mwyn galluogi awdurdodau cynllunio i ddod ag arddangosiadau penodol o fewn rheolaeth. **[14-7, 14-8]**
- 14.5 Ystyriwn yn amodol y dylid bod gweithdrefn, yn debyg i wneud cais am dystysgrif cyfreithlondeb neu ddatblygiad arfaethedig, i alluogi unrhyw un i ganfod a yw neu a fyddai arddangosiad penodol o hysbysebion yn gyfreithlon. A chynigiwn roi caniatâd tybiedig i hysbyseb ar dir a ddefnyddir ar gyfer hysbysebu er deng mlynedd - yn hytrach nag, fel sydd ar hyn o bryd, i un a ddefnyddir er 1974. **[14-9, 14-10]**

Hysbysebion anawdurdodedig

- 14.6 Ar hyn o bryd, mae pŵer i dynnu poster neu blacard anawdurdodedig, dan adran 225 DCGTh 1990, ond nid y bwrdd neu'r strwythur y caiff ei arddangos arno (ar wahân i

yn Sir Dyfed cyn 1996).Cynigiwn yn amodol gyflwyno un weithdrefn sy'n galluogi tynnu unrhyw hysbyseb anawdurdodedig. **[14-12]**

- 14.7 Yn wyneb pa mor hawdd ydyw gosod hysbysebion a'u tynnu, ac yn wyneb yr enillion sylweddol y gellir eu gwneud trwy hysbysebu anawdurdodedig, ystyriwn yn amodol y dylid codi'r ddeddfryd uchaf wrth gollfarnu am hysbysebu anawdurdodedig i ddirwy heb derfyn. **[14-13]**

PENNOD PYMTHEG: GWAITH I GOED A WARCHODIR

Gwneud gorchmynion diogelu coed

- 15.1 Gellir gwneud gorchmynion diogelu coed i warchod coed a choedlannau er lles amwynder. Rydym wedi llunio'r farn amodol na fyddai o gymorth cynnwys yn y Bil ddiffiniad "coeden" neu "coedlan" yn y cyd-destun hwn; ond ystyriwn y byddai o gymorth ei gwneud yn glir fod "amwynder" yn y cyd-destun hwn yn cynnwys edrychiad, oed, prinder, bioamrywiaeth a gwerth hanesyddol, gwyddonol a hamddenol. **[15-1, 15-2]**
- 15.2 Cynigiwn yn amodol y dylai'r Bil (yn ogystal â'r rheoliadau) ei gwneud yn glir y gall gorchmynion diogelu coed warchod coed a nodir yn unigol neu trwy gyfeirio at ardal, neu grwpiau o goed neu goedlannau. Fodd bynnag, gall defnyddio gorchmynion ardal, ar wahân i yn y tymor byr, fod yn broblemus: ac, felly, cynigiwn, pan gânt eu cadarnhau, y dylid eu troi'n orchmynion unigol neu grŵp. **[15-3]**

Yr angen am ganiatâd

- 15.3 Nodwn nad yw'r system newydd a gyflwynwyd gan Ddeddf Cynllunio 2008 wedi dod i rym hyd yn hyn yng Nghymru. Tybiwn y bydd.
- 15.4 Ar hyn o bryd nid yw'n ofynnol cael caniatâd ar gyfer gwaith i goeden a warchodir sy'n marw neu wedi marw neu sy'n beryglus. Yn aml gall coed marw a choed sydd yn marw barhau i fod yn gynefin i fywyd gwylt; ac mae categoreddio coeden fel un beryglus yn agored i gael ei gamddefnyddio. Ystyriwn yn amodol na ddylai eithrio rhag caniatâd fod yn berthnasol onid oes brys gwirioneddol am waith i gael gwared â risg uniongyrchol o niwed difrifol, neu fel y cytunodd yr awdurdod cynllunio iddo.**[15-5]**
- 15.5 Nid yw'n ofynnol cael caniatâd i wneud gwaith i goeden a warchodir lle mae'r gwaith yn angenrheidiol i atal neu leihau niwsans. Nid yw cwmpas yr eithriad hwn yn glir - yn enwedig felly, p'un a yw'n berthnasol i goeden sy'n llechfeddiannu pridd cyfagos ynteu ofod yn unig. Rydym wedi dod i'r farn amodol y byddai'n well gwneud i ffwrdd â'r eithriad yn gyfangwbl. **[15-6]**
- 15.6 Awgrymwn hefyd y dylai fod yn bosib gwneud gwaith heb ganiatâd i goeden ifanc nad yw'n fwy na maint penodol, ac eithrio lle cafodd ei phlannu o ganlyniad i hysbysiad plannu coed yn lle eraill neu amod gynllunio. **[15-7]**

- 15.7 Cynigiwn yn amodol y dylid bod gweithdrefn, yn debyg i wneud cais am dystysgrif cyfreithlondeb defnydd neu ddatblygiad arfaethedig, i alluogi unrhyw un i ganfod a fyddai gwaith penodol i goeden yn gyfreithlon. **[15-8]**

Plannu coed yn lle rhai eraill

- 15.8 Lle mae coeden a warchodir wedi'i thorri'n anghyfreithlon neu ei symud oherwydd ei bod wedi marw, yn marw neu'n beryglus, a rhaid plannu un arall yn ei lle, ystyriwn yn amodol y dylai fod yn ddigonol plannu'r goeden newydd yn neu ger lleoliad yr hen goeden yn hytrach nag, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd, yn union yn yr un lleoliad. **[15-10]**

Gwaith anawdurdodedig

- 15.9 Ar hyn o bryd mae hi'n drosedd (dan adran 210(1) DCGTh 1990) difrodi coeden yn fwriadol fel ei bod yn debygol y caiff ei dinistro. Cynigiwn yn amodol newid y geiriad i gyfeirio at ddinistr neu ddifrod "bwriadol neu ddiotal", fel ei fod yn berthnasol yn achos difrod diotal neu anuniongyrchol, megis palu ffosydd ar gyfer pibellau a cheblau, defnyddio cemegau niweidiol, newid lefelau pridd neu bori anifeiliaid mewn coedlannau. **[15-13]**
- 15.10 Ar hyn o bryd mae dwy drosedd dan adran 210 - gwaith sy'n arwain at farwolaeth coeden (a 210(1)) a gwaith arall (a 210(4)). Awgrymwn hefyd y byddai'n haws, ac yn arwain at lai o gyfle i gamddefnyddio, pe ceid un drosedd, sy'n berthnasol yn achos unrhyw dorri ar orchymyn diogelu coed (neu reoliadau diogelu coed dan y system newydd) - gyda'r ddedfryd yn amrywio'n unol â difrifoldeb y drosedd. Cynigiwn hefyd y dylai'r erlyniad orfod profi fod y gorchymyn wedi'i gyflwyno i'r cyhuddedig, neu ei fod ar gael i'r cyhoedd ei archwilo. **[15-14]**

Coed mewn ardaloedd cadwraeth

- 15.11 Ar hyn o bryd, rhaid i berson sy'n gwneud gwaith i goeden mewn ardal gadwraeth roi rhybudd o chwe wythnos i'r awdurdod cynllunio. Yna, os dymuna, gall yr awdurdod cynllunio osod gorchymyn diogelu coed; os gwna hynny, rhaid i'r ymgeisydd yna geisio caniatâd dan y gorchymyn. Cynigiwn symlhau hyn trwy alluogi'r awdurdod i ganiatáu'r gwaith gydag amod o bosibl, neu osod gorchymyn diogelu coed, heb yr angen am ail gais. **[15-16]**

PENNOD UN AR BYMTHEG: GWELLA, ADFYWIO AC ADNEWYDDU

Tir ac adeiladau blêr

- 16.1 Mae'n bosib i awdurdod cynllunio gyflwyno hysbysiad dan adran 215 DCGTh 1990, yn ei gwneud yn ofynnol gwella tir (yn cynnwys adeiladau). Cynigiwn egluro'r gyfraith trwy ei gwneud yn glir nad oes modd dyroddi hysbysiad oni bai fod tir yn flêr a lle nad yw'r blerwch yn codi yn nhrefn arferol digwyddiadau o ddefnydd cyfreithlon o'r tir. A chynigiwn y dylai apeliadau yn erbyn hysbysiadau o'r fath yn gyffredinol gael eu penderfynu gan arolygwyr. **[16-1 i 16-3]**

- 16.2 Ochr yn ochr â'r weithdrefn yn adran 215, mae hefyd gweithdrefn dan adran 89 Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i'r Cefn Gwlad 1949, lle gall awdurdod wneud gwaith adfer i dir blêr waeth pam y digwyddodd hynny, gwaith tirlunio ar unrhyw dir; a gall, os yw'n angenrheidiol, gaffael y tir. Cynigiwn ddod â hwn i mewn i'r Bil newydd. Cynigiwn hefyd y dylid bod pŵer newydd yn galluogi'r awdurdod i gymryd camau lle mae'r perchennog yn anhysbys neu nid oes modd cysylltu ag o. **[16-4]**

Graffiti a gosod posterï heb ganiatâd

- 16.3 Arferai bod darpariaethau penodol i alluogi awdurdodau cynllunio yng Nghymru i ymdrin â graffiti a gosod posterï heb ganiatâd. Cynigiwn y dylai'r rhain gael eu hailddatgan, gan Weinidogion Cymru yn gwneud rheoliadau i alluogi awdurdodau i gymryd camau priodol i sicrhau y gwneir i ffwrdd â graffiti blêr neu annymunol ac ymdrin â hysbysebu anawdurdodedig cyson. **[16-6]**

Cynlluniau ardal

- 16.4 Cyflwynwyd parthau menter yn Neddf Llywodraeth Leol, Cynllunio a Thir 1980. Gwnaed pedwar gorchymyn yn gynnar yn yr 1980au yn dynodi parthau yn Abertawe ac Aberdaugleddau; parodd bob un ddeng mlynedd. Nid oes gorchymynion pellach wedi'u gwneud. Yn sgil hyn, cyflwynwyd math newydd o "barth menter" yn Neddf Cyllid 2012. Cynigiwn yn amodol ddiddymu yng Nghymru'r system parthau menter a sefydlwyd dan Ddeddf 1980 (a fyddai'n gadael yn ei lle'r systemau parthau menter dan Ddeddf 2012). **[16-7]**
- 16.5 Dynodwyd corfforaethau datblygu trefi newydd yng Nghwbrân a'r Drenwydd (Powys) dan Ddeddf Trefi Newydd 1949: i bob pwrpas dirwynodd y ddwy i ben yn y 1980au. Un gorfforaeth datblygu trefol a ddynodwyd erioed yng Nghymru (ym Mae Caerdydd), dan Ddeddf 1980; fe'i diddymwyd yn 2000. Nid oes yr un ymddiriedolaeth gweithredu ar dai erioed wedi'i dynodi yng Nghymru dan Ddeddf Tai 1988. Cynigiwyd un bwrdd datblygu gwledig, yng nghanolbarth Cymru, yn hwyr yn y 1960au; ond ni chafodd yr un erioed ei sefydlu. Cynigiwn y dylid diddymu'r holl gynlluniau. **[16-8 i 16-11]**

PENNOD DAU AR BYMTHYG: HERIAU YN YR UCHEL LYS

- 17.1 Mae rhan 12 DCGTh 1990 yn darparu ar gyfer heriau yn yr Uchel Lys o ran dilysrwydd gorchymynion a phenderfyniadau penodol. Mae'r rhain yn cynnwys amryfal orchymynion a wnaed gan awdurdodau cynllunio, a chynlluniau datblygu lleol neu strategol; yn ogystal â rhan fwyaf o benderfyniadau Gweinidogion Cymru, gan gynnwys mewn ymateb i geisiadau a benderfynir ganddynt (ar gyfer datblygiad o arwyddocâd cenedlaethol, neu'n dilyn galwad i mewn) ac apeliadau.
- 17.2 Y terfyn amser erioed o ran dod â her yn yr Uchel Lys dan Ran 12 yw o fewn chwe wythnos i ddyddiad herio'r penderfyniad (neu bedair wythnos yn achos penderfyniadau penodol sy'n ymwneud ag apeliadau gorfodi). Arferai bod hawl awtomatig i gychwyn her o'r fath; ond bellach mae caniatâd y Llys yn ofynnol (ers i Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd 2015 ddod i rym).

- 17.3 Dim ond trwy wneud cais am adolygiad barnwrol, dan Ran 54 Rheolau Gweithdrefnau Sifil RhGS) y gellid herio penderfyniadau eraill, yn enwedig rhai'r awdurdodau cynllunio i roi caniatâd cynllunio. Nid oes mod dod â her o'r fath heb ganiatâd y Llys. Arferai'r terfyn amser ar gyfer ceisio caniatâd fod "yn brydlon, ac mewn unrhyw amgylchiadau o fewn tri mis"; er 2013 chwe wythnos ydyw.
- 17.4 Ychydig iawn o Ddeddfau eraill sy'n cynnwys gweithdrefnau her arbennig sydd gyfwerth â'r rhai hynny yn Rhan 12 DCGTh 1990. Ac mae'r weithdrefn dan Ran 12 bellach fwy neu lai union yr yn fath â'r hyn sydd dan Ran 54 o'r Rheolau Gweithdrefnau Sifil - yn enwedig felly o ran terfyn amser a'r angen am ganiatâd gan y Llys.
- 17.5 Felly, cynigiwn yn amodol na ddylid ailddatgan Rhan 12 yn y Bil newydd, fel y byddai'n rhaid dod â holl heriau yn yr Uchel Lys yn y dyfodol trwy gais am adolygiad barnwrol dan Ran 54 o'r Rheolau Gweithdrefnau Sifil. **[17-1]**

PENNOD DEUNAW: DARPARIAETHAU AMRYWIOL AC ATODOL

- 18.1 Mae pennod olaf y Papur Ymgynghori'n ymdrin ag amrywiaeth o bynciau sy'n ymwneud â'r Bil cyfan, a'r defnydd a wneir ohono mewn sefyllfaoedd penodol.

Ymgwymerwyr statudol

- 18.2 Mae Rhan 11 DCGTh 1990 yn ymdrin â sefyllfa arbennig ymgwymerwyr statudol - hynny yw, yn fras, cyrff sy'n darparu amryfal wasanaethau cyhoeddus - mewn perthynas â chyfraith cynllunio. Mae amryfal ddiffiniadau o "ymgwymerwr statudol", yn DCGTh 1990 ac yng GDCG 1995. Ni fyddai unrhyw ddiwygiadau yn y maes hwn yn bosib os ydynt yn ymwneud â newid i ddeddfwriaeth y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Fodd bynnag, yn amodol ar hynny, cynigiwn y dylai'r Bil resymoli cyn belled â phosib categorïau cyrff y dylid ymdrin â nhw fel ymgwymerwyr statudol, ac egluro ym mhob achos beth ddylid ei ystyried yn dir gweithredol a phwy yw'r Gweinidog priodol. **[18-1]**

Mwynau

- 18.3 Yn DCGTh 1990 a GDCG 1995 mae cyfres o ddiffiniadau "mwynau", "tynnu a gweithio mwynau", a "gwaith cloddio" sy'n plethu trwy'i gilydd. Cynigiwn resymoli'r rhain cyn belled â phosib. **[18-5]**
- 18.4 Cydnabuwyd ers peth amser fod gwaith cloddio mwynau'n wahanol i fathau eraill o ddatblygu mewn nifer o ffyrdd. O ganlyniad, mae cyfraith a gweithdrefnau cynllunio ar gyfer datblygiad o'r fath wedi newid sawl gwaith dros y blynyddoedd. Ystyriwn yn amodol nad oes angen ailddatgan y darpariaethau arbennig yng nghyswllt caniatadau mwynau a roddwyd cyn Chwefror 1982 (yn Atodlen 2 Deddf Cynllunio a Digolledu 1991 ac Atodlen 13 Deddf Yr Amgylchedd 1995) yn y Bil. Fodd bynnag, dylid cynnwys y darpariaethau arbennig sy'n ymwneud â chaniatadau mwy diweddar (yn Atodlen 14 Deddf 1995 ac Atodlen 9 DCGTh 1990). **[18-6, 18-7]**

Ffioedd

- 18.5 Ceir nifer gynyddol o sefyllfaoedd y gallai Gweinidogion Cymru ac awdurdodau cynllunio godi pris am gynnal swyddogaethau cynllunio. Cynigiwnyn amodol fod y Bil yn cynnwys pŵer sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i gyhoeddi graddfa o ffioedd sy'n ymwneud â chynnal unrhyw swyddogaeth o'r fath, ar y ddealltwriaeth nad yw'r incwm o'r ffioedd a godir yn fwy na chost cynnal y swyddogaeth dan sylw. **[18-10]**

Ymchwiliadau, gwrandawiadau ac achosion eraill

- 18.6 Mae'r egwyddor lle rhoddwyd yr hawl i bartïon i ymchwiliadau ac achosion eraill hawlio eu costau wedi'i sefydlu dros sawl blwyddyn. Yn fyr, rhaid i'r hawliwr allu dangos fod y parti arall wedi ymddwyn yn afresymol, a bod yr ymddygiad hwnnw wedi arwain at wariant diangen. Cynigiwn y dylid cynnwys yr egwyddor hon yn y Bil. **[18-13]**

Diffiniadau

- 18.7 Rydym wedi ystyried a oes termau technegol, a ddefnyddir yn DCGTh 1990 ac mewn deddfwriaeth eilaidd, y dylid eu diffinio'n gliriach. Rydym wedi edrych yn benodol ar ddiffiniad "annedd ac "annedd-dy", "cwrtil" ac "amaethyddiaeth" a geiriau cysylltiedig. Ac estynnwn wahoddiad i gyrff yr ymgynghorwyd â nhw ddweud a ydynt yn ystyried bod mwy.**[18-15]**
- 18.8 Defnyddir y term "annedd-dy" mewn amrywiaeth o gyd-destunau, ac mae sawl diffiniad statudol gwahanol, rhai sy'n gwrth-ddweud y naill a'r llall. Awgrymwn y gellid disodli'r gair gyda'r term "annedd", a ddiffinnir fel ei fod yn cynnwys tŷ a fflat. **[18-16]**
- 18.9 Mae "cwrtil" yn air arall na ddefnyddir yn feunyddiol ac nad oes gair cyfystyr amdano. Cynigiwn yn amodol y dylid diffinio cwrtil adeilad fel tir sy'n gysylltiedig agos ag o, a byddir yn penderfynu p'un a yw strwythur y tu mewn i gwrtil adeilad gan roi sylw i osodiad ffisegol yr adeilad, y strwythur a'r adeiladau a'r tir o'i amgylch, perchnogaeth o'r adeilad a'r strwythur, nawr ac yn y gorffennol; a'r defnydd a'r swyddogaeth a wneir ohonynt, nawr ac yn y gorffennol. **[18-17]**